# Ar goll mewn Amser

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu bod y byd yn mynd i ddod i ben yr wythnos hon.  Maen nhw wedi cael y gwaith o gasglu amrywiaeth o wrthrychau a gaiff eu rhoi mewn capsiwl a fydd yn cael ei selio a'i anfon i'r gofod, yn y gobaith fod bywyd ar blaned arall yn rhywle.  Bydd y gwrthrychau hyn yn dangos sut mae bywyd ar y ddaear heddiw.

Rhaid i'r dysgwyr benderfynu pa wrthrychau y bydden nhw eisiau eu rhoi yn y capsiwl.

# Amrywiadau

Gallai dysgwyr mwy abl esbonio pam dewison nhw'r gwrthrychau penodol. Hefyd gellid rhoi amrywiaeth o wrthrychau iddyn nhw a gofyn iddyn nhw esbonio pa rai y bydden nhw'n eu cadw, a pha rai y bydden nhw'n cael gwared arnyn nhw, a pham.

Hefyd gellid cyflwyno amrywiaeth o wrthrychau i ddysgwyr llai abl ddewis o'u plith.